CYPE(4)-01-15 - Papur i'w nodi 6

**Huw Lewis AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref
LF/HL/1312/14

Ann Jones AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

18 Rhagfyr 2014

Annwyl Ann,

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - Cam 1 Craffu ar Fil Cymwysterau Cymru**

Yn sgil mynychu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 11 Rhagfyr, ac fel ymateb i'r cwestiwn isod, cytunais y byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth yn manylu ar y broses a ddefnyddiwyd i ddewis CBAC i ddarparu Bagloriaeth Cymru.

**Os yw'r Gweinidog eisoes wedi penderfynu dewis un darparwr ar gyfer cymhwyster penodol, pam fo angen deddfwriaeth newydd yn y maes hwn?**

Pan gynigiwyd datblygu Bagloriaeth Cymru yn wreiddiol yn 2001, gofynnodd Llywodraeth Cymru am ddatganiadau o ddiddordeb i ddatblygu'r fanyleb, o dan bwerau i ddatblygu gwaith i hyrwyddo addysg pobl Cymru ac i dynnu gwariant a gafodd eu nodi ar y pryd o dan adrannau 40 a 85 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Nid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng y gwaith hwn â swyddogaethau rheoleiddio'r corff rheoleiddio cymwysterau yng Nghymru ar y pryd, sef ACCAC - Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru. CBAC oedd yr unig gorff i fynegi diddordeb a gweithiodd gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r fanyleb a'i chyflwyno.

Gyda CBAC yn unig y bu Llywodraeth Cymru yn gweithio ar ddatblygu Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd, fel y bydd yn cael ei haddysgu mewn ysgolion o fis Medi 2015. Roedd yr Adolygiad o Gymwysterau wedi argymell y dylai datblygu Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd "adeiladu ar gryfderau'r model presennol sy'n cael eu parchu'n gyffredinol ac ar y gwaith y mae darparwyr eisoes wedi'i fuddsoddi." (Argymhelliad 9) a "Dylai datblygiad manwl, cyflenwi a chymorth ar gyfer Bagloriaeth Cymru barhau i fod yn gyfrifoldeb CBAC yn y tymor byr ..." (Argymhelliad 12) cyn trosglwyddo i Cymwysterau Cymru pan fydd y gwaith o'i sefydlu wedi'i gwblhau. Byddai cynnwys cyrff eraill ar y cam hwn wedi creu

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Huw.Lewis@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

ansefydlogrwydd posibl i ddysgwyr, darparwyr dysgu a'r cyrff dyfarnu eu hunain tra bo'r system gymwysterau yng Nghymru yn y broses o gael ei datblygu. Os bydd Cymwysterau Cymru yn dymuno cyfyngu ar y cymhwyster pan gaiff ei adolygu nesaf, bydd angen gwneud hynny mewn modd agored, teg a thryloyw, yn unol â'i gynllun cyhoeddedig.

Wrth ddatblygu deddfwriaeth ar gyfer y corff statudol newydd, Cymwysterau Cymru, y dymuniad oedd nodi'r hyn fydd swyddogaethau'r corff yn glir ac yn dryloyw. Bydd y gallu i gyfyngu ar nifer y ffurf ar gymwysterau (gan gynnwys cyfyngu i un ffurf yn unig) ac i gomisiynu, drwy broses gystadleuol, gorff dyfarnu i ddatblygu cymhwyster cyfyngedig o'r fath yn galluogi Cymwysterau Cymru i gyflawni ei brif nod ac i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.

Hyderaf fod yr wybodaeth hon yn mynd i fod o ddefnydd i aelodau'r Pwyllgor.

Yn gywir



**Huw Lewis AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills